**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/3013/20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Medi 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Amddiffyn rhag Troi Allan) (Cymru) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwyf yn eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod o'r diwrnod gosod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau wedi'i atodi er gwybodaeth.
Mae'r Rheoliadau'n diwygio paragraffau 1(1), 2, 3, 6, 8, 9, 10 ac 11 o Atodlen 29 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("Deddf 2020") mewn perthynas â'r cyfnod rhybudd y mae'n rhaid i landlordiaid ei roi i denant pan fydd y landlord wedi rhoi tenantiaeth sy'n cael ei llywodraethu gan Ddeddf Rhenti 1977 a Deddfau Tai 1985, 1988 a 1996. Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud yn cynnwys ymestyn y cyfnod perthnasol y mae Atodlen 29 yn berthnasol iddo tan 31 Mawrth 2021.

Dyma fydd effaith y newidiadau hyn:

- ymestyn, am chwe mis arall, y cyfnod pan fydd angen i landlordiaid, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, roi mwy o rybudd i denantiaid cyn cychwyn achos cymryd meddiant yn y llysoedd;
- sicrhau bod angen chwe mis o rybudd mewn perthynas â phob tenantiaeth warchodedig a statudol, pob tenantiaeth ddiogel, pob tenantiaeth ragarweiniol ac isradd, a phob tenantiaeth sicr a thenantiaeth fyrddaliadol sicr, ac eithrio pan fydd y rheswm dros y rhybudd yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- dychwelyd at y gofynion cyn-Covid 19 o ran cyfnod rhybudd ar gyfer cyflwyno rhybuddion lle mae’r rheswm dros roi’r rhybudd yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu drais domestig.

Mae angen brys o hyd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid mewn perygl o gael eu troi allan o’u cartrefi, er mwyn parhau i gyfyngu ar y Coronafeirws, lleihau’r baich ar staff rheng flaen, a sicrhau bod tenantiaid yn cael cymorth priodol. Mae’r Rheoliadau’n gwneud cyfraniad pwysig at ddiwallu’r angen brys hwnnw. Er mwyn sicrhau bod darpariaethau Atodlen 29 yn dal yn berthnasol ar ôl 30 Medi, daw'r Rheoliadau i rym ar 29 Medi 2020.

Oherwydd yr amserlen frys, ni chafwyd cyfle i ymgynghori'n ystyrlon nac ymgymryd ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Serch hynny, paratowyd Memorandwm Esboniadol sydd wedi’i atodi er gwybodaeth. Mae’r Memorandwm Esboniadol a'r Rheoliadau wedi cael eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o’r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau a’r Siambrau; Julian Lake, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth a John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd